

CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (HYSBYSU) (OLEW A NWY ANGHONFENSIYNOL) (CYMRU) 2015

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan erthyglau 18(1) a 22(5) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012⁽¹⁾, yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

Cychwyn

1. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 16 Chwefror 2015.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn—

mae i “cyfathrebiad electronig” yr ystyr a roddir i “electronic communication” yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (dehongli cyffredinol)⁽²⁾;

ystyr “datblygiad olew a nwy anghonfensiynol” (“*unconventional oil and gas development*”) yw datblygiad sy'n ymwneud ag archwilio, arfarnu neu gynhyrchu methan gwely glo neu olew neu nwy siâl ar y tir drwy ddefnyddio technegau echdynnu anghonfensiynol, gan gynnwys hollti hydrolig (ond nid yw'n cynnwys gwneud tyllau turio archwiliol nad ydynt yn ymwneud â chynnal technegau echdynnu anghonfensiynol o'r fath).

Cymhwyso

3. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio—
 - (a) mewn perthynas â thir yng Nghymru;
 - (b) a wneir ar 16 Chwefror 2015 neu ar ôl hynny;
 - (c) ar gyfer datblygiad sy'n ddatblygiad olew a nwy anghonfensiynol;
 - (d) nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu ei wrthod.

Hysbysu Gweinidogion Cymru

4. Pan na fo awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwrthod cais am ddatblygiad olew a nwy anghonfensiynol, rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru.

5. Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, rhaid iddo anfon at Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, drwy gyfathrebiad electronig neu fel arall—

- (a) copi o'r cais (gan gynnwys copïau o unrhyw blaniau a lluniadau cysylltiedig ac unrhyw asesiad priodol o'r perygl o lifogydd, trafnidiaeth neu sŵn neu unrhyw asesiad priodol arall) a gwybodaeth ategol;
- (b) copi o'r hysbysiad gofynnol;
- (c) copi o unrhyw sylwadau a wneir i'r awdurdod mewn cysylltiad â'r cais (gan gynnwys unrhyw farn a fynegir gan adran o'r llywodraeth, awdurdod cynllunio lleol arall neu ymgynghorai arall);
- (d) copi o unrhyw adroddiad ar y cais a baratoir gan unrhyw un o swyddogion yr awdurdod;

⁽¹⁾ O.S. 2012/801.

⁽²⁾ 2000 p.7. Diwygiwyd adran 15(1) gan adran 406(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) a pharagraff 158 o Atodlen 17 iddi.

- (e) copi o unrhyw farn sgrinio a ddyroddir o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999⁽¹⁾;
- (f) copi o unrhyw asesiadau priodol a gynhelir o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010⁽²⁾.

Y cyfnod perthnasol cyn y caiff awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio

6. Yn ddarostyngedig i baragraff 7, pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, ni chaniateir i'r awdurdod roi caniatâd cynllunio i'r cais tan ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5.

7. Caiff yr awdurdod cynllunio lleol fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 6, yn hysbysu'r awdurdod—

- (a) nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn cysylltiad â'r cais hwnnw; neu
- (b) nad yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y datblygiad yn ddatblygiad olew a nwy anghonfensiynol.

Carl Sargeant

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

13 Chwefror 2015

⁽¹⁾ O.S. 1999/293, y ceir diwygiadau iddo.

⁽²⁾ O.S. 2010/490, y ceir diwygiadau iddo.